Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

https://aneurinbevanchc.nhs.wales/

Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy’n defnyddio gwasanaethau’r GIG. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n gwrando ar ac yn cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd. Mae 7 CIC yn gwasanaethu gwahanol rannau o Gymru.

Mae Bwrdd y CICau yn bodoli er mwyn cefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad CICau. Mae'n cynrychioli safbwyntiau cyfunol CICau ledled Cymru.

**Mae copi electronig o'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan:**
**www.aneurinbevanchc.nhs.wales**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni:**

**Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan**
**Tŷ Raglan**
**6-8 William Brown Close**
**Parc Busnes Llantarnam**
**Cwmbrân**
**NP44 3AB**

**Ffôn:** **01633 838516**
**E-bost:** **enquiries.aneurinbevan@waleschc.org.uk**
**Twitter:** @bevanchc

# Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Cipolwg ar ein blwyddyn
4. Yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud
5. Sut rydym wedi cyrraedd Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023
6. Edrych ymlaen
7. Atodiadau 1 a 2

# Crynodeb gweithredol

Mae Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Aneurin Bevan yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, sy'n manylu ar ein gwaith a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyflwyno ym mis Mai 2019, mae'n galonogol nodi nad ydym wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â'n perfformiad o ran cymhwyso'r safonau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gallwn ddarparu tystiolaeth gadarnhaol o gydymffurfedd yn y ffyrdd canlynol:

- Mae'r holl ddeunyddiau eirioli ar gael yn ddwyieithog
- Yr holl ddeunyddiau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys: cylchlythyrau, arolygon a gwybodaeth, ar gael yn ddwyieithog
- Gwefan gwbl hygyrch yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Ystyriaeth lawn o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y camau cadarnhaol a gymerwyd i ddarparu cyhoeddiadau Iaith Gymraeg a'r effaith y byddai unrhyw benderfyniad yn ei chael ar ddefnyddwyr Cymraeg.
- Brand ac arwyddion corfforaethol dwyieithog.
- Dulliau rhesymol ar waith i gynnig gwasanaethau dwyieithog mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu.
- Mynediad i wasanaeth teleffoni newydd 'ar alw' i siaradwyr Cymraeg, sy'n awyddus i siarad ag aelod o staff CIC yn Gymraeg.

# Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar y Bwrdd a'r saith CIC yng Nghymru i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Daeth Safonau'r Gymraeg ["y safonau"] i rym ar gyfer y Bwrdd a'r 7 CIC ar 30 Mai 2019.

Fel 8 corff statudol ar wahân, mae'r Bwrdd a phob CIC yng Nghymru wedi derbyn hysbysiad ar wahân o'r Safonau sy'n berthnasol iddynt, a bennir gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol.

Mae'r ddolen isod yn rhoi manylion y safonau sy'n berthnasol i CIC Aneurin Bevan:
[https://aneurinbevanchc.nhs.wales/about-us/our-governance/challenge-to-welsh-language-commissioner-determination-letter/](https://aneurinbevanchc.nhs.wales/about-us/our-governance/challenge-to-welsh-language-commissioner-determination-letter/)

Dyma bedwerydd adroddiad CIC Aneurin Bevan ar gydymffurfio â'r safonau. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Jemma Morgan, Prif Swyddog, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Gymraeg yn CIC Aneurin Bevan. Hi sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad y safonau o ddydd i ddydd.

Mae ein Pwyllgor Gweithredol wedi darllen yr adroddiad hwn ac wedi'i gymeradwyo.

# Cipolwg ar ein blwyddyn

Yn 2022/2023, cydymffurfiodd CIC Aneurin Bevan 100% â’r holl Safonau'r Gymraeg a osodwyd, ac ni chafwyd unrhyw gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â'n perfformiad o ran cydymffurfedd.

Gwnaethom gwblhau gwiriad hanner blwyddyn a blynyddol o'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg er mwyn dangos ein cydymffurfedd.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru, gan gynnwys CIC Aneurin Bevan, yn cynnig system ffôn gwbl ddwyieithog i bobl ledled Cymru.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos â Bwrdd y CICau a Swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfedd.

# Yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud

Mae'r Bwrdd a'r CICau yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg. Rydym yn parhau i atgyfnerthu'r gofynion ac i wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2022/23, mae CIC Aneurin Bevan wedi parhau i weithio’n agos gyda CICau eraill ledled Cymru a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg.

Mae penderfyniadau a wnawn neu weithgareddau yr ydym yn eu cynllunio yn destun Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA), rydym wedi cynnwys y gofynion o ran y Gymraeg yn ein EqIA i sicrhau nad yw’r penderfyniad a wnawn yn effeithio’n negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a bod ein gweithgareddau yn awtomatig yn ddwyieithog i orfodi’r cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg.

Yn lleol, mae CIC Aneurin Bevan wedi codi ymwybyddiaeth o ofynion y safonau drwy wneud y canlynol:

- Cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio Cymraeg ar wefan CIC Aneurin Bevan.
- Ei gwneud yn ofyniad hollbwysig i gadarnhau dewisiadau iaith pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â'n swyddfa leol am y tro cyntaf i ofyn am unrhyw gymorth.
- Sicrhau bod deunydd cyhoeddedig y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn dilyn cyhoeddiad canllawiau’r mudiad CIC ar y defnydd o’r Gymraeg yn fewnol, mae cefnogi ein staff a’n haelodau i ddefnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd wedi bod yn ffocws allweddol i’n gwaith.

Y nod yw cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith, a meithrin hyder i'w defnyddio yn y gweithle.

Rydym wedi monitro ein cynnydd o ran cydymffurfio â'r safonau drwy raglen hunanasesu ar gyfer Cymru gyfan.

## Ymdrin â chwynion am y Gymraeg

Mae ein gweithdrefn 'Cwyno Amdanom Ni' yn nodi'r broses ar gyfer delio â chwynion am gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy'r ddolen ganlynol https://aneurinbevancic.gig.cymru/amdanom-ni/cwyno-amdanom-ni/

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, ni chawsom **unrhyw** gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Sut rydym wedi cyrraedd Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023

Mae CIC Aneurin Bevan wedi gweithio i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o'n meysydd gwaith, yn ogystal â sicrhau cydymffurfedd. Gwnaethom gynnal hunanasesiad o'n cydymffurfedd â'r safonau ym mis Awst 2022. Mae manylion y canfyddiadau i'w gweld yn **Atodiad 1**.

## Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r safonau hyn yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau. Eu nod yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu sicrhau

na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau.

Maent yn berthnasol i'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu i'r cyhoedd e.e. gwasanaethau dros y ffôn, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, llythyrau a dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

| **Cyflenwi Gwasanaethau** | **Yn cydymffurfio** | **Gweithio tuag at** | **Ddim yn cydymffurfio** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y Safonau | | | | |
| 52 | 38 | 0 | 0 | 14 |

Drwy ein hunanasesiad, bu modd i ni ddangos ein bod yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym wedi parhau i gael cymorth Cymraeg mewnol gan gydweithwyr o bob cwr o Gymru mewn perthynas â gohebiaeth sensitif ac rydym yn cael cymorth cyfieithu allanol gan Prysg.

- Rydym wedi parhau i ofyn i'n rhanddeiliaid a'n partneriaid gweithredol rheolaidd am eu dewis iaith drwy neges ddwyieithog safonol.

- Gofynnir i bob unigolyn sy'n cysylltu â ni, neu y byddwn yn cysylltu ag ef i gychwyn, am ei ddewis iaith:
    - Ar gyfer cleientiaid eiriolaeth – caiff dewis iaith pobl ei chofnodi yn eu cofnod Datix unigol (system rheoli cofnodion).
    - Caiff dewis iaith pob rhanddeiliad arall ei chofnodi ar y daenlen dewisiadau iaith fewnol.

- Caiff pob llythyr croeso a thaflen wybodaeth am y gwasanaeth eirioli ei ddosbarthu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar adegau lle na fydd dewis iaith cleient newydd yn hysbys i gychwyn.

- Mae pob llythyr safonol, holl dempledi papur pennawd y CIC a llofnod e-bost pob aelod o'r staff yn cynnwys datganiad sy'n nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y byddwn yn ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn ddi-oed.

- Lansiwyd system ffôn integredig Cymru gyfan i CICau ledled Cymru ym mis Tachwedd 2021, lle mae siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar gael i ateb galwadau gan y cyhoedd ar y pwynt cyswllt cyntaf. Felly, rydym wedi bod yn cydymffurfio â safonau 8 i 18 ers 1 Tachwedd 2021.

- Mae ein negeseuon ffôn awtomatig yn ystod oriau arferol a'r tu allan i oriau arferol yn ddwyieithog.

## Safonau llunio polisi

Mae'r safonau llunio polisi yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ystyried yr effaith y gall ein penderfyniadau polisi ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor arweiniol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud y tri pheth canlynol:

1. ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol);

2. ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hybu’r defnydd o’r Gymraeg
3. ceisio barn am effeithiau'r Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

| **Llunio polisi** | **Yn cydymffurfio** | **Yn gweithio tuag at gydymffurfio** | **Ddim yn cydymffurfio** | **Ddim yn gymwys** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y Safonau | | | | |
| 9 | 9 | 0 | 0 | 0 |

Mae ein gofynion iaith Gymraeg yn rhan o Gynlluniau Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor Iechyd Cymuned. Hefyd, mae ein Hasesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys cyfleoedd Iaith Gymraeg a pha safonau y bydd angen i bob prosiect neu bolisi eu hystyried pan fyddwn yn adolygu polisi, yn gwneud penderfyniad neu’n cynllunio gweithgareddau cyhoeddus.

Rydym wedi parhau i gyhoeddi gwybodaeth yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer datblygu ein Cynllun Gweithredol Blynyddol. Mae'r ymatebion a gyflwynir i ni yn ymwneud â phob mater sy'n effeithio ar anghenion gofal iechyd ac mae hyn yn cynnwys y gallu i gael gafael ar ofal y GIG drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arolwg hwn yn fyw ar ein gwefan ar ffurf arolwg cyhoeddus, a gellir dod o hyd iddo yma.

Yn ogystal â hyn, mae ein Pwyllgorau Gweithredol a Chynllunio yn cynnal cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae fformat y cyfarfod agored hwn yn ein helpu i ddangos ein tryloywder ynghylch sut a pham y gwnaed penderfyniadau. Mae'r

penderfyniadau hyn yn ymwneud yn bennaf â cheisiadau a wneir gan y GIG i newid neu addasu gwasanaethau'r GIG.

Mae’r ddau Bwyllgor yn asesu effaith ceisiadau newid gwasanaeth ac yn ystyried y gofyniad i dynnu sylw at ymgysylltu ac ymgynghori â’r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cyfle cyfartal i leisio’u barn yn eu dewis iaith.

## Safonau gweithredu

Mae'r safonau hyn yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Bwrdd a CICau yn hyrwyddo ac yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gan anelu at weithle dwyieithog.

| **Safonau Gweithredu** | **Yn cydymffurfio** | **Yn gweithio tuag at gydymffurfio** | **Ddim yn cydymffurfio** | **Ddim yn gymwys** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y Safonau | | | | |
| 14 | 9 | 0 | 0 | 5 |

Rydym wedi dosbarthu canllaw interim i bob aelod o'r staff ac Aelod, sy'n sôn am ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

Rydym wedi parhau i osod meddalwedd ar unrhyw gyfrifiaduron newydd er mwyn galluogi'r staff i wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg, a hynny drwy ddefnyddio Cysgeir.

Bellach mae gan bob aelod o'r staff eiriad dwyieithog i'w ddefnyddio yn eu llofnodion e-bost ac unrhyw ymatebion e-bost awtomatig.

## Safonau cadw cofnodion

Mae'r safon hon yn ymwneud â chadw cofnod o nifer y cwynion a geir mewn perthynas â'n cydymffurfedd â'r safonau.

| Cadw cofnodion | Yn cydymffurfio | Yn gweithio tuag at gydymffurfio | Ddim yn cydymffurfio | Ddim yn gymwys |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y Safonau | | | | |
| 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |

Mae gennym daenlen fewnol sy'n dogfennu nifer y cwynion a geir yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dangosodd ein hunanasesiad ein bod wedi cyrraedd y safon hon.

## Sgiliau Iaith Gymraeg

Drwy gydol y flwyddyn, mae CIC Aneurin Bevan wedi parhau i annog a chefnogi'r staff ac aelodau gwirfoddol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Dosbarthwyd manylion cyrsiau blasu Cymraeg Gwaith i staff ac aelodau a thrafodir cyfleoedd dysgu Cymraeg gyda staff yn ystod gwerthusiadau un-i-un.

Gwnaethom ofyn i staff y CIC hunanasesu eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith yn **Atodiad 2**. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau:

| MATRICS CYMWYSEDDAU'R HUNANASESIAD SGILIAU CYMRAEG<br>Niferoedd a lefelau'r staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band cyflog** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **Cyfanswm** |
| 8b | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 7 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| | **10** | **1** | **0** | **0** | **0** | **0** | **11** |

## Staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw aelod o'r staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg. Er bod pob aelod o'r staff wedi cael gwybodaeth am y cyrsiau blasu Cymraeg Gwaith sydd ar gael iddynt drwy wefan Dysgu Cymraeg Cyrsiau Blasu Ar-lein | Dysgu Cymraeg.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo’r Gymraeg ac yn cefnogi staff i fynychu cyrsiau i gynyddu eu hymgysylltiad.

## Recriwtio staff

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle nodwyd y canlynol:

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Rhaid dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael ei benodi
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

| Categori | Hysbysebwyd yn fewnol | Hysbysebwyd yn allanol |
|---|---|---|
| Hanfodol | 0 | 0 |
| Dysgu ar ôl penodi | 0 | 0 |
| Dymunol | 2 | 0 |
| Ddim yn angenrheidiol | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 2 | 0 |

# Edrych ymlaen

Ym mis Ebrill 2023, bydd Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn dod yn sefydliad cenedlaethol newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, Llais – eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol (enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru).

Mae CICau yn paratoi datganiadau etifeddiaeth ar gyfer y corff newydd, sy'n cynnwys ein cyfrifoldeb corfforaethol dros y Gymraeg. Bydd y corff newydd yn gallu ystyried a mabwysiadu unrhyw arfer da a rennir gan CICau ar gyfer parhad gwasanaeth a gofynion y Gymraeg, cyn derbyn ei orchymyn cydymffurfio iaith Gymraeg ei hun yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.

## Atodiad 1

## Adolygiad Cydymffurfedd Awst 2022

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GWYRDD – Mae ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar waith ac mae'r rhain yn gweithio'n gyson dda. | | | | |
| MELYN – Mae ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar with ond nid yw'r rhain yn gweithio'n gyson dda eto. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfedd | | | | |
| COCH – Nid yw ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar waith, neu nid yw'r trefniadau rydym wedi eu rhoi ar waith yn gweithio. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfedd, ac efallai y bydd angen cymorth arnom i wneud hyn. | | | | |
| 1. | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 1 ym mhob amgylchiad heblaw am y canlynol:<br>◦ pan fyddwch yn cael gohebiaeth gan unigolyn sy'n cynrychioli'r canlynol: | Gwyrdd | Mae gennym gymorth cyfieithu Cymraeg mewnol drwy gydweithwyr CIC ar gyfer deunydd cyfathrebu sensitif.<br><br>Mae gennym drefniadau cyfieithu Cymraeg allanol ar waith drwy Prysg ar gyfer deunydd nad yw'n sensitif. http://prysg.cymru/ |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich lletya | | |
| 2 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi-<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,<br>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac<br>(c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | | Rydym wedi gofyn i ohebwyr rheolaidd am eu dewis iaith drwy neges ddwyieithog safonol–<br><br>"Bore da/Prynhawn da<br>Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich dewis iaith er mwyn gallu gohebu â chi yn yr iaith honno. A wnewch chi gadarnhau drwy ymateb i'r neges hon a hoffech i mi ysgrifennu atoch, neu siarad â chi yn Gymraeg, Saesneg neu iaith arall.<br>Diolch o galon<br>Good morning/Good afternoon<br>I am writing to seek your language preference in order to correspond with you in your language of |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | choice. Please can you confirm by way of reply if you wish for me to write to or speak with you in Welsh, English or another language.” Gofynnir i gleientiaid eiriolaeth am eu dewisiadau iaith yn ystod eu cyswllt cyntaf, a chaiff hyn ei gofnodi yn eu cofnod Datix.<br><br>Taenlen fewnol yw cofnod dewisiadau iaith CIC Aneurin Bevan - ni ellir ei hatodi gan ei bod yn enwi aelodau o'r cyhoedd â buddiant. |
| 3 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy’n aelodau o’r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i’r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg; ac os-<br>(a) yw’r ddau unigolyn yn ymateb i | | Caiff dewisiadau iaith cleientiaid eiriolaeth eu cofnodi yn eu cofnod Datix unigol, a chofnodir eu dewis iaith yn ystod eu galwad gyntaf neu e-bost cyntaf i'r swyddfa drwy daflen wybodaeth Datix. O ganlyniad i gyfrinachedd, ni allwn atodi tystiolaeth o gydymffurfedd. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;<br>(b) yw un o’r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny. | | Caiff dewis iaith pob unigolyn (proffesiynol) arall ei chofnodi ar y daenlen fewnol sydd wedi'i harbed ar ein gyriant a rennir. |
| 4 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o’r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 4 ym | | Gall hyn gynnwys rhestrau dosbarthu drwy e-bost at nifer o staff y GIG (heblaw Powys), oni bai eich bod yn gwybod bod pawb ar y rhestr ddosbarthu eisoes wedi rhoi eu dewis iaith ac wedi'u cofnodi ar y daenlen fewnol. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | mhob amgylchiad, ac eithrio:<br><br>◦ pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, a bod yr holl bersonau hynny wedi rhoi gwybod i chi nad ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg; neu<br>◦ pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, a bod yr holl bersonau hynny yn gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli:<br>• Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich lletya. | | Bydd hyn yn cynnwys llythyrau, arolygon, cylchlythyrau, adroddiadau a gyhoeddwyd, ac ati, a anfonir at nifer o randdeiliaid allanol ac aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Enghraifft 1 –<br>Public Notice re Notice of CHC Execu |
| 5 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r | | Fel uchod. Enghraifft 2 –<br>welcome letter english.docx welcome letter welsh.docx |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.<br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 5 ym mhob amgylchiad heblaw am y canlynol:<br><br>o pan fyddwch yn cael gohebiaeth gan unigolyn sy'n cynrychioli'r canlynol:<br>• Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>fel y person sy'n eich lletya. | | |
| 6 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid | | Llythyrau croeso, hysbysiadau cyhoeddus. Os bydd angen llofnodi unrhyw ddogfen a gaiff ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg, llofnodir y ddwy ddogfen.<br><br>Enghraifft 3 – |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | i’r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | | Public Notice re<br>Notice of CHC Execu |
| 7 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan—<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy’n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,<br>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 7 ym mhob amgylchiad, ac eithrio:<br>o mewn gohebiaeth, a chyhoeddiadau a hysbysiadau at bersonau sydd yn gweithredu mewn rhinwedd sy’n cynrychioli:<br>• Cyngor Iechyd Cymuned; | | Diweddarwyd holl lythyrau safonol a thempledi llythyrau pennawd y CIC i gynnwys datganiad, a dylai llofnod e-bost unigol pob aelod o'r staff gynnwys y datganiad.<br><br>Enghraifft 4 –<br>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi.<br>We welcome correspondence in Welsh. We will respond in Welsh without delay. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu<br>• Powys fel y person sy'n eich lletya. | | |
| 8 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf. |
| 9 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf. |
| 10 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | rhaid ichi ddelio â’r alwad yn Gymraeg os yw’r person yn dymuno hynny—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo’r alwad i aelod o staff nad yw’n siarad Cymraeg sy’n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | | |
| 11 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf. |
| 12 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o’ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Yr un rhif ffôn ar gyfer y ddau gyda deialu 1 ar gyfer Cymraeg, deialu 2 |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | | ar gyfer opsiwn Saesneg |
| 13 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Enghraifft 5:<br><br>Contact us page with - welcome corr |
| 14 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | | Dim dangosyddion perfformiad ffôn wedi'u gosod |
| 15 | Safonau Cyflenwi | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn | | Mae recordiadau lleisbost "o fewn oriau" a "thu allan i oriau" yn nodi bod croeso i bobl adael neges yn |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | | Gymraeg neu Saesneg |
| 16 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Mae cyfnodau gwyliau staff yn cael eu cyflenwi gan staff eraill sy'n siarad Cymraeg |
| 17 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu | | Gwasanaeth ffôn cenedlaethol, dwyieithog o'r pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Dim ond un rhif ffôn a ddarperir i alwyr allanol – 01633 838516 |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | | |
| 18 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth gyfarch y person. | | Fel uchod |
| 19 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn | | Ar gyfer ymholiadau cleientiaid eiriolaeth ac ymholiadau cyffredinol, gofynnwn i bobl nodi eu dewis iaith, ac yna caiff hwn ei gadw yn eu ffeil cofnod datix.<br><br>Rydym hefyd yn ceisio dewis iaith aelodau CIC. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg. | | |
| 20 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | | Mae pob neges ffôn awtomatig yn ddwyieithog |
| 21 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod-<br>(a) rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a (b) os yw P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | | Cleientiaid eiriolaeth – Gofynnir i gleientiaid am eu dewis iaith yn ystod eu cyswllt cyntaf â'r gwasanaeth, felly nid oes angen i chi ofyn i'r cleient eto beth yw ei ddewisiadau iaith ar gyfer cyfarfodydd.<br><br>Ymweliadau – yr "ymweliadau gwirio ar hap" y cyfeirir atynt yw ymweliadau CICau â wardiau ac adrannau ac ati, ac felly, maent wedi'u heithrio o'r safonau.<br><br>Rhanddeiliaid, e.e. y GIG/sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd – os caiff person ei wahodd i |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid i chi gydymffurfio â safon 21 ym mhob amgylchiad, ac eithrio:<br><br>o pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod sydd yn gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli:<br>• Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich lletya; neu<br><br>o pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | | gyfarfod, gofynnir iddo am ei ddewis iaith a chaiff hyn ei gofnodi ar y daenlen fewnol.<br><br>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, ymdrinnir â cheisiadau am wasanaeth cyfieithu ar y pryd dwy gyfrif busnes â Zoom, sy'n cynnwys nifer o sianeli er mwyn i bobl ddewis eu dewis iaith ar gyfer y cyfarfod. Caiff cyfieithydd proffesiynol ei gomisiynu i gefnogi'r sianel Gymraeg. Rydym yn deall bod y nodwedd hon hefyd yn cael ei datblygu a'i lansio ar gyfer MS Teams ar hyn o bryd. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 22 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22 ym mhob amgylchiad, ac eithrio:<br><br>o pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli:<br>• Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich lletya; neu<br><br>o pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y | | Cleientiaid eiriolaeth – Gofynnir i gleientiaid am eu dewis iaith yn ystod eu cyswllt cyntaf â'r gwasanaeth, felly nid oes angen i chi ofyn i'r cleient eto beth yw ei ddewisiadau iaith<br><br>Ar gyfer cyfarfodydd. Os byddwn yn dod yn ymwybodol bod cleient yn dymuno dod â chymorth ychwanegol fel ffrind neu berthynas i gyfarfod, yna gofynnir i bob unigolyn ychwanegol sy'n bresennol am ei ddewis iaith, a chaiff hyn ei gofnodi ym mhrif gofnod Datix y cleient yn y cofnod Gweithredu ar y diwrnod y cafodd y gwasanaeth y cais hwn.<br><br>Ymweliadau – yr "ymweliadau gwirio ar hap" y cyfeirir atynt yw ymweliadau CICau â wardiau ac |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | | adrannau ac ati, ac felly, maent wedi'u heithrio o'r safonau.<br><br>Rhanddeiliaid, e.e. y GIG/sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd – os caiff mwy nag un person ei wahodd i gyfarfod, gofynnir i bob un ohonynt am eu dewis iaith a chaiff hyn ei gofnodi ar y daenlen fewnol.<br>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, ymdrinnir â cheisiadau am wasanaeth cyfieithu ar y pryd dwy gyfrif busnes â Zoom, sy'n cynnwys nifer o sianeli er mwyn i bobl ddewis eu dewis iaith ar gyfer y cyfarfod. Caiff cyfieithydd proffesiynol ei gomisiynu i gefnogi'r sianel Gymraeg. |
| 22A | Safonau Cyflenwi | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r | | Fel uchod (22) |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Thema</th><th>Safon</th><th>Coch, Melyn, Gwyrdd</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td>Gwasanaethau</td><td>gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22A ym mhob amgylchiad, ac eithrio:<ul><li>pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu mewn rhinwedd sy’n cynrychioli:<ul><li>Cyngor Iechyd Cymuned;</li><li>Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu</li><li>Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy’n eich lletya; neu</li></ul></li><li>pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:</li></ul></td><td></td><td></td></tr>
</table>

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | | |
| 22CH | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22CH ym mhob amgylchiad, ac eithrio:<br>o pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli: | | Fel uchod (22) |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cyngor Iechyd Cymuned;<br>• Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; neu<br>• Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich lletya; neu<br>o pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | | |
| 26 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | | Mae pob hysbysiad cyhoeddus a llythyr penodol i'r cyhoedd yn cynnwys datganiad am wasanaethau Cymraeg ar gyfer y CIC.<br><br>Gweler enghraifft 3 mewn ymateb i safon 6. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 27 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy’n agored i’r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | | Gweler enghraifft 3 mewn ymateb i safon 6. |
| 28 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy’n agored i’r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw’n dymuno defnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) os yw’r person hwnnw (neu o leiaf un o’r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o’r Gymraeg i’r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y | | Cyfarfodydd cyhoeddus – Gofynnwn i bob siaradwr gwadd a yw’n dymuno cyflwyno yn Gymraeg, e.e. cyflwyniadau gan staff y GIG neu randdeiliaid. Yna, caiff ei ddewis iaith ei chofnodi ar y daenlen fewnol y cyfeirir ati uchod mewn ymateb i safonau eraill.<br><br>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy gyfrif busnes gyda Zoom, sy'n cefnogi nifer o sianeli i bobl ddewis eu hiaith ddewisol ar gyfer y cyfarfod. Rydym yn deall |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | | bod y nodwedd hon hefyd yn cael ei datblygu a'i lansio ar gyfer MS Teams ar hyn o bryd. Bydd cyfieithydd proffesiynol yn cael ei gomisiynu i gefnogi'r sianel Gymraeg. |
| 29 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu’r rheini sy’n bresennol ar lafar yn Gymraeg—<br>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 29 ym mhob amgylchiad heblaw am y canlynol: | | Mae'r amrywiad i'r safon hon yn golygu y gallwn ofyn i'r cyhoedd am eu gofynion o ran gwasanaeth Cymraeg cyn cyfnod penodol o amser cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal.<br><br>Felly, rydym yn gofyn am gofrestriadau ar gyfer Gwasanaeth Cymraeg 7 diwrnod neu fwy cyn dyddiad y cyfarfod.<br><br>Os na cheir unrhyw gofrestriadau cyn y cyfnod hwn o amser, yna rydym wedi ein heithrio rhag gofyniad y safon hon i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | ◦ pan fydd gwahoddiad neu ddeunydd sy'n hysbysebu cyfarfod yn gofyn i'r cyhoedd roi gwybod i chi os hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, ac nad oes unrhyw un ohonynt wedi ymateb yn dweud yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | | cyfarfod i unigolion nad ydynt wedi cofrestru eu dewis ymlaen llaw.<br><br>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy gyfrif busnes gyda Zoom, sy'n cefnogi nifer o sianeli i bobl ddewis eu hiaith ddewisol ar gyfer y cyfarfod. Rydym yn deall bod y nodwedd hon hefyd yn cael ei datblygu a'i lansio ar gyfer MS Teams ar hyn o bryd. Bydd cyfieithydd proffesiynol yn cael ei gomisiynu i gefnogi'r sianel Gymraeg. |
| 30 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy’n agored i’r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw | | Mae pob hysbysfwrdd ac arwydd codi yn ddwyieithog. |


| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | | |
| 31 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | | Mae pob hysbysiad cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol) a llythyr penodol i'r cyhoedd yn gwahodd pobl i gyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn cael ei gyhoeddi/hyrwyddo ar yr un pryd.<br><br>Gweler y ddolen Twitter @bevanchc a Facebook "CIC Aneurin Bevan CHC". |
| 32 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y | | Ystyr digwyddiadau cyhoeddus yw "stondin ymgysylltu" ar gyfer y CIC, e.e. stondin mewn digwyddiad cyhoeddus ehangach lle mae ein staff a'n haelodau yn bresennol i godi ymwybyddiaeth o'r CIC, ac ati. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio ac yn eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 32 ym mhob amgylchiad heblaw am y gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.<br><br>Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad, ac eithrio:<br>◦ lle bo'n angenrheidiol i gynrychiolydd nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>◦ lle nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | | Mae pob arwydd a deunydd arddangos yn ddwyieithog.<br><br>Nid ydym yn gwneud cyhoeddiadau sain. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 33 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | | Mae pob deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn ddwyieithog ac yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd.<br><br>Enghraifft –<br>ABCHC social media publicity material En<br>ABCHC social media publicity material W |
| 34 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | | Fel uchod, mae pob hysbysfwrdd ac arwydd codi yn ddiwyieithog ac yn cael ei ddefnyddio ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys taflenni, cylchlythyrau, cynllun gweithredol, ac ati. |
| 36 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | | Cynigir pob arolwg a ffurflen ar ffurf fersiwn Cymraeg/Saesneg.<br><br>Enghreifftiau<br>Final cancelled procedures or opera<br>Welsh - Final cancelled procedure |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 37 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg-<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | | Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ar ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Mae hyn yn cynnwys taflenni, cylchlythyrau, hysbysiadau cyhoeddus, adroddiadau, amserlenni cyfarfodydd, arolygon, ac ati.<br><br>Report Library - Aneurin Bevan Community Health Council (nhs.wales)<br><br>Llyfrgell Adroddiadau - Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (gig.cymru) |
| 38 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi—<br>(a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn | | Nid yw ffurflenni na dogfennau unrhyw CIC yn gosod terfynau amser gwahanol ar gyfer fersiynau neu ymatebion Cymraeg a Saesneg. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);<br>(b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac<br>(c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | | Live Surveys - Aneurin Bevan Community Health Council (nhs.wales)<br><br>Arolygon Byw - Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (gig.cymru) |
| 39 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau-<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich | | Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg ein gwefan yn gwbl gyfredol a gweithredol:<br><br>Cymraeg – https://aneurinbevancic.gig.cymru/ |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | gwefan. | | Saesneg - https://aneurinbevanchc.nhs.wales/ |
| 42 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy’n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i’r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | | Mae gennym sgrin ddwyieithog gychwynnol sy'n cyfeirio defnyddwyr i fersiwn Gymraeg neu fersiwn Saesneg y dudalen we. Mae'r dudalen Saesneg hefyd yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r fersiwn Gymraeg yn y bar dewislen.<br><br>Enghraifft –<br><br> |
| 43 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu’r rhyngwyneb a’r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | | Mae fersiynau Cymraeg/Saesneg y wefan yn union yr un fath o ran opsiynau'r ddewislen a'r rhyngwyneb. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gweler y gwe-ddolenni yn yr ymateb ar gyfer safon 39. |
| 44 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | | Nid ydym yn berchen ar yr ap MS Forms na'r Pencadlys Ymgysylltu, ond mae pob arolwg a gyhoeddir gennym drwy'r llwyfannau hyn yn ddwyieithog. |
| 45 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 45 yn yr amgylchiadau canlynol:<br><br>o wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol. | | Caiff pob neges ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yna yn Saesneg yn syth wedi hynny.<br><br>Dolen Twitter: @bevanchc<br><br>Gweler dolen Facebook @CIC Aneurin Bevan<br><br>Gweler enghraifft yn safon 33. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 46 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | | Pe byddem yn cael ymateb yn Gymraeg drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, byddem yn darparu ymateb wedi'i gyfieithu.<br><br>Mae gennym gymorth cyfieithu Cymraeg mewnol drwy gydweithwyr CIC ar gyfer deunydd cyfathrebu sensitif.<br><br>Mae gennym drefniadau cyfieithu Cymraeg allanol ar waith drwy Prysg ar gyfer deunydd nad yw'n sensitif. http://prysg.cymru/<br><br>Hyd yma, nid yw hyn wedi digwydd eto, ac felly ni allwn atodi tystiolaeth ond mae gennym broses glir ar waith i fodloni'r gofyniad hwn. |
| 47 | Safonau Cyflenwi | Pan fyddwch-<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys | | Mae pob arwydd mewnol ac arwydd codi ymgysylltu allanol yn ddwyieithog. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad;<br>rhaid i unrhyw destun sy’n cael ei arddangos ar yr arwydd neu’r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy’n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yw’r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na’r testun Saesneg. | | Enghraifft –<br> |
| 48 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch-<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad;<br>sy’n cyfleu’r un wybodaeth yn | | Arwyddion swyddfeydd – Fel yn achos y lluniau uchod, caiff ein harwyddion baner mewnol eu gosod yn Gymraeg ac yna'n Saesneg, fel mai'r arwydd Cymraeg a welir gyntaf. |


| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i’r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy’n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | | Mae lleoliadau arwyddion a'r tebygolrwydd mai'r arwydd Cymraeg a welir gyntaf yn dibynnu ar leoliad y person ac o ba gyfeiriad y mae'n gweld yr arwydd. Er enghraifft, mae ein baneri codi ymgysylltu bob amser yn cael eu gosod ochr yn ochr â'i gilydd a bob amser mewn ardal agored er mwyn galluogi'r cyhoedd i fynd atynt o'r naill ochr a'r llall, felly bydd p'un a fydd aelod o'r cyhoedd yn gweld yr arwydd Cymraeg gyntaf yn dibynnu ar lwybr y person hwnnw, ac ni ellir rhagweld hyn. Rydym yn cydymffurfio gan fod modd gweld y Gymraeg yn glir wrth ochr y Saesneg. |
| 49 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | | Mae'r testun Cymraeg ar bob un o'n harwyddion wedi cael ei gyfieithu gan gwmni allanol ac mae'r ffioedd am y gwasanaeth cyfieithu |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | proffesiynol yn cynnwys ail berson yn prawfddarllen y testun cyn iddo gael ei ddychwelyd atom. |
| 57 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os yw pwnc y contract yn awgrymu y dylai gael ei lunio yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | | Nid ydym yn ymgymryd â hyn |
| 58 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi-<br>(a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg,<br>(b) peidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol | | Nid ydym yn ymgymryd â hyn. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau).<br>(c) | | |
| 59 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | | Nid ydym yn ymgymryd â hyn |
| 60 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | | Mae pob dull cyfathrebu yn gwahodd galwadau neu ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i'n negeseuon ffôn awtomatig, pob llythyr pennawd templed, y wefan, taflenni, etc.<br><br>Enghraifft – y wefan |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Aneurin Bevan Community Health Council**<br>Tel: 01633 838516<br>Email: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br>(We welcome calls and correspondance in Welsh and English)<br><br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan<br>Ffôn: 01633 838516<br>Ebost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br><br>(Rydym yn croesawu pob galwad a gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Sesneg) |
| 61 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | | Bydd taflenni cyhoeddusrwydd sy'n bodoli eisoes am swyddogaethau CIC yn parhau i gael eu dosbarthu (yn unol â chyngor Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg).<br><br>Bydd copïau newydd a argreffir yn cynnwys testun ychwanegol i gyrraedd y safon hon.<br><br>Mae ein gwefan yn nodi bod y Gwasanaeth Eirioli hefyd ar gael yn Gymraeg drwy'r datganiad:<br><br>Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn Gymraeg<br><br>This service is available in Welsh |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Thema</th><th>Safon</th><th>Coch, Melyn, Gwyrdd</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>

Rydym yn hyderus bod prosesau ar waith i gydymffurfio'n llawn â'r safon hon pan gaiff rhagor o gopïau o'r taflenni eu hargraffu.</td></tr>
<tr><td>62</td><td>Safonau Cyflenwi</td><td>Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth</td><td></td><td>Hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, e.e. “CIC Aneurin</td></tr>
</table>

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | Gwasanaethau | gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | | Bevan CHC” yw'r dolenni Twitter a Facebook, sy'n cydymffurfio'n llawn. Mae ein holl ddeunydd hunaniaeth gorfforaethol hefyd yn dangos y ddolen hon neu'r teitl llawn lle caiff y teitl Cymraeg ei gyflwyno gyntaf.<br><br>Enghraifft<br><br>unhappy with care (e).pdf<br>unhappy with care (w).pdf<br>Aneurin Bevan Community Health<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin B |
| 63 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi-<br>(a) cynnal asesiad o’r angen i’r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg;<br>(b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os dangosodd yr asesiad fod angen i’r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg | | Gofynnir i bob aelod o'r staff:<br><br>a) a yw'n dymuno ymgymryd â chyrsiau Cymraeg. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | b) a oes angen cynnal cyrsiau eraill nad ydynt yn ymwneud yn benodol â dysgu'r Gymraeg, yn Gymraeg.<br><br>Os caiff cais o'r fath ei wneud, byddem yn ei hwyluso. Hyd yma, nid ydym wedi cael cais o'r fath gan aelod o'r staff. |
| 69 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Mae ein gofynion o ran y Gymraeg bellach yn rhan o gynlluniau Cydraddoldeb blynyddol y CIC.<br><br>Mae ein Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u diweddaru i gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r safonau y bydd angen i bob prosiect neu bolisi eu hystyried.<br><br>Enghraifft |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | IIA.docx |
| 70 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif,ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Fel uchod |
| 71 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu | | Fel uchod |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | |
| 72 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Fel uchod.<br><br>Hefyd,<br><br>Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer datblygu ein cynllun gweithredol blynyddol (a ddisgrifir uchod). Mae'r sylwadau a gyflwynir yn ein helpu i benderfynu mewn ffordd gydlynol sut y dylem ganolbwyntio ein gweithgareddau ar gyfer y 12 mis nesaf ac yn ein helpu i ddrafftio'r cynllun gweithredol blynyddol. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r gwahoddiad a gyhoeddir yn cynnig cyfle cyfartal i ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg (gweler isod),<br><br>Enghraifft<br><br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin B<br>Aneurin Bevan Community Health C |
| 73 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai | | Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71 a 72 |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | ffafriol na'r Saesneg. | | |
| 74 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol,ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72 a 73 |
| 75 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad | | Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73 a 74<br><br>Hefyd,<br><br>Rydym yn cynnal prosiectau ymchwil at ddibenion gwneud penderfyniadau "polisi". Fodd |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | | bynnag, gellir ystyried ein harolygon ar-lein cyhoeddus, sy'n casglu data cyffredinol am brofiadau o'r GIG, yn ymchwil yn yr ystyr ein bod yn ceisio barn y cyhoedd am eu profiadau, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau y mae angen gweithredu arnynt.<br><br>Gall yr ymchwil hon wedyn effeithio ar ein penderfyniadau strategol mewn perthynas ag ymweliadau brys neu gamau uwchgyfeirio i uwch-swyddogion.<br><br>Caiff pob arolwg ar-lein sy'n casglu data ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Live Surveys - Aneurin Bevan Community Health Council |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (nhs.wales)<br><br>Arolygon Byw - Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (gig.cymru) |
| 76 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar-<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73, 74 a 75 |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 77 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar —<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75 a 76 |
| 79 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 79 ym | | Wedi'i lunio gan Fwrdd y CICau a'i gadw ar y gyriant N: N:\Agreed versions of standards, guidance, etc., for staff and CHCs\Welsh language\8. Using the Welsh language internally guide |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | mhob amgylchiad ac eithrio:<br>▪ cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd. | | |
| 82 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un neu ragor o’r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg -<br>(a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle;<br>(b) polisi ynghylch iechyd a lles yn y gwaith;<br>(c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle; (ch) polisi ynghylch rheoli perfformiad;<br>(d) polisi ynghylch absenoldeb o’r gwaith;<br>(dd) polisi ynghylch amodau gwaith;<br>(e) polisi ynghylch patrymau gwaith. | | Caiff y dogfennau hyn eu cynhyrchu gan Fwrdd y CICau a/neu Fwrdd Addysgu Iechyd Powys.<br><br>Rhoddir dogfennau uniongyrchol neu ddolenni i'r wybodaeth hon drwy'r Bwrdd neu Bowys. Caiff holl daflenni Powys eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>http://nww.powysthb.wales.nhs.uk/accessing-workforce-and-od-policies<br><br>N:\Agreed versions of standards, guidance, etc., for staff and CHCs\CHC Behavioural Standards |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 83 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy’n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff-<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg;<br>a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | | Caiff y dogfennau hyn eu cynhyrchu gan Fwrdd y CICau.<br>Making a complaint about us - CHC Com<br>Making a complaint about us - CHC Com<br>Handling complaints about us |
| 84 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu’n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â’r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi-<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw’r aelod o staff yn dymuno i’r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth | | Fel uchod ar gyfer Safon 83 |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg. | | |
| 85 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (A) beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir ganddo, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A-<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. | | Fel uchod ar gyfer Safonau 83 ac 84 |
| 86 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi-<br>caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y | | Nodir yr hawl hon ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan HR010 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | | HR010 - Disciplinary Policy and Procedur |
| 87 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r | | Nodir yr hawl hon ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan HR010 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg i'r Saesneg. | | |
| 88 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A -<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu. | | Nodir yr hawl hon ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan HR010 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| 89 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | | Mae meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg wedi'i gosod ar gyfrifiaduron pob aelod o staff y CIC drwy gymhwysiad Cysgeir Enghraifft – |


| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | |   |
| 97 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg-<br>(a) recriwtio a chyfweld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | | Os yw'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i staff ein CIC, byddem yn cynnig cyfleoedd i gwblhau'r hyfforddiant yn Gymraeg. |
| 98 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn-<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | | Os yw'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i staff ein CIC, byddem yn cynnig cyfleoedd i gwblhau'r hyfforddiant yn Gymraeg. |


| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 104 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu—<br>(a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a<br>(b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 104 heblaw am y canlynol:<br><br>o Rhan (b) – darparu testun Cymraeg ar gyfer manylion cyswllt eich cyflogeion yn ogystal â negeseuon i ddweud nad ydynt ar gael i ymateb i negeseuon e-bost. | | Mae pob aelod o staff CIC Aneurin Bevan wedi cael y canlynol:<br><br>hapus i siarad<br>Cymraeg!<br><br>I'm learning Welsh<br><br>Dwi'n dysgu Cymraeg<br><br>Llofnod e-bost dwyieithog, sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg o fanylion cyswllt<br><br>Enghraifft – |



| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Deputy Chief Officer/ Dirprwy Prif Swyddog**<br><br>Aneurin Bevan Community Health Council<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan<br><br>Raglan House<br>6-8 William Brown Close<br>Llantarnam Business Park<br>Cwmbran<br>NP44 3AB<br><br>Ty Raglan<br>6-8 William Brown Close<br>Parc Busnes Llantarnam<br>Cwmbran<br>NP44 3AB<br><br>Tel / ffon: 01633 838516<br>Fax / ffacs: 01633 484623<br>Email / e-bost: jemma.mchale@waleschc.org.uk<br>Email / e-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br>Web site / Gwefan: www.communityhealthcouncils.org.uk/aneurinbevan/<br><br>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi.<br><br>We welcome correspondence in Welsh. We will respond in Welsh without delay.<br><br>Mae manylion ein hysbyseb preifatrwydd ar gael ar ein gwefan www.communityhealthcouncils.org.uk/aneurinbevan<br>Details of our privacy notice is available on our website www.communityhealthcouncils.org.uk/aneurinbevan<br><br>Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg<br>Please write to me in Welsh or English<br><br>Negeseuon allan o'r swyddfa ar gyfer negeseuon e-bost (er bod hyn wedi'i eithrio).<br>Enghraifft –<br>Diolch am eich gohebiaeth. Rwyf allan o'r swyddfa tan 02.07.2022 byddaf yn ymateb ar ôl imi ddychwelyd.<br>Os mae eich gohebiaeth yn un frys, cysylltwch â'm cyd-weithwyr ar 01633 838516 Diolch<br><br>Thank you for your correspondence. I'm out of the office until 02.07.2022 and will answer on my return. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | If your correspondence is urgent, please contact my colleagues on 01633 838516 Thank you. |
| 105 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) rhoi ar gael i aelodau’r staff sy’n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy’n cyfleu hynny; a<br>(b) hybu gwisgo’r bathodyn ymhlith aelodau’r staff. | | Mae'r staff yn ymwybodol y gallant ofyn am gerdyn llinyn neu fathodyn i'w wisgo os ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Hyd yma, ni chafwyd cais o'r fath. |
| 111 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch-<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad yn eich gweithle; rhaid i unrhyw destun sy’n cael ei arddangos ar yr arwydd neu’r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy’n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar | | Gweler yr ymateb i safon 47 ac enghreifftiau pellach isod –<br>  |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | | |
| 112 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch-<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad;<br>a bod yr arwydd neu'r hysbysiad hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | | Gweler y dystiolaeth o arwyddion Cymraeg ac yna Saesneg yn y gweithle yn yr ymatebion i safonau 47 a 111. |
| 113 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau a arddangosir yn eich gweithle yn | | Cafodd yr arwyddion a arddangosir yn ein swyddfeydd eu cyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol, a |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | gywir o ran ystyr a mynegiant. | | oedd yn cynnwys ail berson yn prawfddarllen y testun am gywirdeb. |
| 115 | Safonau Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | | Enghraifft o daenlen fewnol –<br>35CD19ED.PNG |
| 118 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | | Cyhoeddir ein hysbysiad cydymffurfio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan:<br><br>Enghraifft –<br><br>Home About Us Get Help Get Involved Improving NHS Services What we have to Say<br>What We Do Our Meetings Our Team Our Governance Other CHCs Complain About Us<br>Aneurin Bevan Community Health Council Policies:<br>• ABCHC Privacy Notice<br>• Privacy Notice (Members)<br>• Privacy Notice (individual advocacy clients)<br>• Code of Conduct for CHC Members<br>• Publication Scheme for Aneurin Bevan Community Health Council<br>Board of Community Health Councils in Wales:<br>• Making every voice count - Equality Plan 2020-2021<br>Welsh Language Scheme<br>• COMPLIANCE NOTICE – SECTION 44 WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011 Aneurin Bevan Community Health Council – Issue Date: 30/11/2018<br>Welsh Language Standards 29.05.19<br>"The Welsh Language Standards were created because of a measure passed by the Welsh Assembly in 2011, the Welsh Language (Wales) Measure.<br>The purpose of Welsh Language Standards is to:<br>• "ensure clarity to organisations in relation to the Welsh language<br>• ensure clarity to Welsh speakers on what services they can expect to receive in Welsh<br>• ensure greater consistency in Welsh language services and improve quality to users"<br>Every public services organisation in Wales has to comply with language duties. From 30 May 2019 the Board of CHCs and CHCs in Wales must follow the Welsh Language Standards that apply to them. You can find out more (including what standards have been applied) at the Welsh Language Commissioner's website http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Pages/Home.aspx"<br>**Aneurin Bevan Community Health Council**<br>**Phone:** 01633 838516 **Email:** enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br>Aneurin Bevan Community Health Council welcome all calls and correspondence in Welsh or English |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | <br>Yr hyn a wnawn Ein Cyfarfodydd Ein Tîm Ein Llywodraethiant Cynghorau Iechyd Cymunedol Eraill Cwyno Amdanom Ni<br>Cwyno Amdanom Ni<br>Polisïau Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan:<br>• Hysbysiad Preifatrwydd<br>• Hysbysiad Preifatrwydd (Aelodau)<br>• Hysbysiad Preifatrwydd (cleientiaid eiriolaeth unigol)<br>• Cod Ymddygaid i Aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned<br>• Cyhoeddi Ar Gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan<br>Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru<br>• Sicrhau bod pob llais yn cyfrif - Cynllun Cydraddoldeb 2020-2021<br>Cynllun Iaith Gymraeg:<br>• HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan – Dyddiad Dyroddi: 30/11/2018 Rhif<br>Safonau'r Gymraeg 29.05.2019<br>Crëwyd Safonau'r Gymraeg oherwydd mesur a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, sef Mesur y Gymraeg (Cymru).<br>Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw:<br>• "Ei gwneud yn fwy eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg<br>• Ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg<br>• Sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd i ddefnyddwyr<br>Rhaid i bob sefydliad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith. O 30 Mai 2019 ymlaen, rhaid i'r Bwrdd CICau a CICau yng Nghymru ddilyn y Safonau Iaith sy'n berthnasol iddynt. Gallwch gael gwybod mwy (gan gynnwys pa safonau sy'n berthnasol) ar wefan Comisiynydd y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx<br>**Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan**<br>**Ffôn:** 01633 838516 **Ebost:** enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn croesawu pob galwad a gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg |
| 119 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi-<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy’n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â’ch cydymffurfedd â’r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â<br>(b) hwy, a cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno ar eich gwefan | | Mae ein gweithdrefn gwyno, sy'n cynnwys cwynion am ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn nogfen genedlaethol Bwrdd y CICau, "Cwyno amdanom ni".<br><br>Gweler enghraifft yn safon 83.<br><br>Cyhoeddir y ddogfen hon ar ein gwefan: |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | |    |
| 120 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. | | 2019/2020 Adroddiad: Aneurin Bevan Community Health ( Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin B |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)-<br>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);<br>(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);<br>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn— | | 2020/2021 Adroddiad:<br>Aneurin Bevan Community Health (<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin B<br><br>2021/2022 Adroddiad:<br>Aneurin Bevan Community Health (<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin B |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd;<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi<br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. | | |
| 121 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu’r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i | | Byddwn yn cadw at y safon hon pan gaiff ceisiadau eu gwneud. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan Gomisiynydd y Gymraeg ers i'r safonau gael eu cyflwyno. |

| Rhif | Thema | Safon | Coch, Melyn, Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | gydymffurfio â hwy. | | RE: Atgoffwr: Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg \| Reminder: Welsh language Standards Report<br>Jemma Morgan (CHC - AB)<br>To Catrin Jenkins<br>Fri 08/07/2022 14:00<br>Retention Policy NHS Wales 7 Year Retention Policy (7 years) Expires 08/07/2029<br><br>Good afternoon Catrin<br><br>Thank you for your email, I hope you are well?<br><br>Aneurin Bevan CHC has published its annual report and this can be found via the below links.<br><br>https://aneurinbevanchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/our-annual-reports/welsh-language/welsh-language-standards-annual-report-2021-2022/<br><br>https://aneurinbevancic.gig.cymru/beth-sydd-gennym-iw-ddweud/ein-hadroddiadau-blynyddol/welsh-language-standards-annual-report/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2021-2022/<br><br>Best wishes<br><br>Jemma<br><br>**Chief Officer / Prif Swyddog**<br><br>Aneurin Bevan Community Health Council<br>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan<br><br>Raglan House<br>6-8 William Brown Close<br>Llantarnam Business Park<br>Cwmbran<br>NP44 3AB<br><br>Ty Raglan<br>6-8 William Brown Close<br>Parc Busnes Llantarnam<br>Cwmbran<br>NP44 3AB<br><br>Tel / ffon: 01633 838516<br>Fax / ffacs: 01633 484623<br>Email / e-bost: jemma.morgan4@wales.nhs.uk<br>Email / e-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk<br>Web site / Gwefan: Home - Aneurin Bevan Community Health Council (nhs.wales) |

| | GWRANDO / SIARAD | DARLLEN / DEALLTWRIAETH | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 0** DIM SGÌL | ● Dim gallu sylweddol | ● Dim gallu sylweddol | ● Dim gallu sylweddol |
| **LEFEL 1** MYNEDIAD | **Rwy'n gallu:**<br>● Ynganu geiriau, enwau llefydd, enwau adrannau, ac ati yn Gymraeg.<br>● Cyfarch a deall cyfarchiad<br>● Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi, ac ati.<br>● Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â...'.<br>● Datgan ceisiadau syml a'u dilyn gyda chwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall geiriau a brawddegau allweddol syml am faterion cyfarwydd / rhagweladwy yn ymwneud â'm swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. | **Rwy'n gallu:**<br>● Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati. |
| **LEFEL 2** SYLFAEN | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall hanfod sgyrsiau Cymraeg yn y gwaith<br>● Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'm swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfod gwybodaeth anarferol am faterion cyfarwydd yn ymwneud â'm swydd, | **Rwy'n gallu:**<br>● Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon byr syml ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy yn ymwneud â'm profiadau personol neu fy swydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml<br>• Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y testun yn gyfarwydd<br>• Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio | e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. | |
| **LEFEL 3**<br>**CANOLRADD** | **Rwy'n gallu:**<br>• Deall llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud mewn swyddfa, cyfarfod, ac ati.<br>• Cynnal sgwrs syml ar destun sy'n ymwneud â gwaith, ond efallai y bydd angen dychwelyd i Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol<br>• Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol<br>• Cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon y mae'n debygol y bydd angen rhoi sylw iddynt<br>• Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'm swydd | **Rwy'n gallu:**<br>• Sganio testunau ar gyfer gwybodaeth berthnasol<br>• Deall ystod deg o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'm swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan gaiff iaith safonol ei defnyddio. | **Rwy'n gallu:**<br>• Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â'm swydd, ond bydd angen i mi ofyn i siaradwr Cymraeg ei wirio<br>• Gwneud nodiadau gweddol gywir tra bod rhywun yn siarad |
| **LEFEL 4**<br>**UWCH** | **Rwy'n gallu:**<br>• Cynnal sgwrs anffurfiol estynedig yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad gyda lefel dda o rugldder ac ystod o fynegiant ond efallai y bydd angen | **Rwy'n gallu:**<br>• Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym ar yr amod na ddefnyddir geirfa | **Rwy'n gallu:**<br>• Paratoi llawer o fathau cyfarwydd o lythyrau ffurfiol megis ymholi, cwyno, gofyn a gwneud cais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dychwelyd i'r Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>● Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn fy maes gwaith<br>● Dadlau o blaid/yn erbyn achos | anarferol ac nad oes unrhyw wybodaeth sy'n arbennig o gymhleth neu dechnegol | ● Cymryd nodiadau cymharol gywir mewn cyfarfodydd neu arddywediad arferol<br>● Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â'm swydd, ond bydd angen gofyn i siaradwr Cymraeg ei wirio |
| **LEFEL 5**<br>**HYFEDREDD** | **Rwy'n gallu:**<br>● Cynghori ar / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif yn ymwneud â'm profiadau fy hun<br>● Rhoi cyflwyniad/arddangosfa<br>● Ymdrin â chwestiynau bygythiol neu annisgwyl yn hyderus<br>● Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol<br>● Rhoi cyfweliadau â'r cyfryngau | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau, ac ati. | **Rwy'n gallu:**<br>● Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc<br>● Ysgrifennu nodiadau llawn / cywir o gyfarfodydd tra'n parhau i ddilyn trafodaethau a chyfranogi ynddynt<br>● Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus ond efallai y bydd angen eu gwirio am fân gamgymeriadau o ran sillafu a gramadeg |